**Fendigaid Nos**

Fendigaid nos a'r sêr yn siriol wenu
Y sanctaidd nos pan y ganwyd ein Crist.
Du fu ein byd, a llawn o boen a thristwch
nes gwawriodd bore bendigaid yr Iôr.
Mewn gobaith llon mae'r cread yn atseinio,
A sain gorfoledd beunydd yn ei gân.

**Cytgan**
Syrth ar dy lin,
O! Gwrando gân yr engyl.
O! Sanctaidd nos, y nos daeth Crist i'n byd!
Fendigaid nos, O! Nos, Fendigaid nos.

Fendigaid nos tywyned y goleuni
O'r nef daeth mab bendigedig i'r byd.
Rhyfeddol wyrth a weli'n dlawd mewn preseb,
Cynghorwr Duw mewn cadachau yn ddyn.
Cadarn Iôr a thad pob tragwyddoldeb,
ar liniau Mair fe gaed tywysog hedd.

**Cytgan**
Syrth ar dy lin,
O! Gwrando gân yr engyl.
O! Sanctaidd nos, y nos daeth Crist i'n byd!
Fendigaid nos, O! Nos, Fendigaid nos.